# Agenda - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Hydref 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 52)

Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio’r Senedd, Llywodraeth Cymru

Anna Hind, Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Briff ymchwil

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

3.1 **PTN 3.1 – Nodyn technegol gan Lywodraeth Cymru ar drin chwyddiant a'r defnydd o gyfradd ddisgownt Trysorlys EM a dadchwyddwyr cynnyrch mewnwladol crynswth yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Aelodau ac Etholiadau) Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 53 – 55)

3.2 **PTN 3.2 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch y Bil cwotâu rhywedd disgwyliedig – 26 Medi 2023**

(Tudalennau 56 – 57)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 5 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

(11.00-11.15)

## 6 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): dull y Pwyllgor o graffu yng Nghyfnod 1

(11.15 - 11.20) (Tudalennau 58 – 60)

**Dogfen ategol:**

Papur 1 – Dull y Pwyllgor o graffu yng Nghyfnod 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Nodyn Technegol – Y dull o ymdrin â chwyddiant a'r defnydd o gyfradd ddisgownt Trysorlys EF a datchwyddyddion cynnyrch domestig gros yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn rhoi esboniad byr o gyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF a'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros ac yn amlinellu sut y maent wedi cael eu defnyddio yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[1] yn unol â methodoleg sefydledig. I grynhoi, defnyddir y gyfradd ddisgownt ganolog a'r datchwyddyddion cynnyrch domestig gros yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn gwahanol ffyrdd, a defnyddir y datchwyddyddion cynnyrch domestig gros yn yr Asesiad Fforddiadwyedd hefyd.

## Y cefndir

Cyfradd ddisgownt Trysorlys EF

Mae disgowntio yn dechneg a ddefnyddir yn rheolaidd mewn gwerthusiad economaidd i fynegi costau a manteision sy'n digwydd yn y dyfodol yn nhermau gwerth presennol. Mae hyn yn galluogi cymhariaeth o brosiectau ac opsiynau gwahanol lle mae'r costau a'r manteision yn digwydd ar wahanol adegau mewn amser.

Mae'r rheswm pam y mae costau a manteision yn cael eu disgowntio mewn gwerthusiad economaidd yn ymwneud â Ffafriaeth Amser Gymdeithasol. Mae dwy elfen i Ffafriaeth Amser Gymdeithasol:

- Ffafriaeth amser - mae tystiolaeth y byddai'n well gan gymdeithas yn gyffredinol ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yn awr yn hytrach nag yn ddiweddarach, ac
- Effeithiau cyfoeth - gan fod cymdeithas yn gyffredinol yn dod yn gyfoethocach dros amser (mewn termau real), disgwylir i'r cyfleustod neu'r gwerth a geir o ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yn y dyfodol ostwng o'i gymharu â'r amser presennol.

Mae cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF (3.5%) wedi'i chyfrifo i adlewyrchu cyfradd Ffafriaeth Amser Gymdeithasol. Dim ond i gostau a manteision dros y tymor byr i'r tymor canolig y cymhwysir hyn a dim ond lle bo hynny'n briodol.

Dylid cymhwyso cyfraddau disgownt is i gostau a manteision sy'n cael effaith dros y tymor hir, ac yn enwedig lle gallai cenedlaethau'r dyfodol gael eu heffeithio. Dylid cymhwyso cyfraddau disgownt is i effeithiau ar iechyd a bywydau pobl hefyd, ac i rai effeithiau ar yr amgylchedd (lle nad yw effeithiau cyfoeth yn berthnasol). Ar gyfer effeithiau ar iechyd, bywydau pobl a'r amgylchedd - sy'n pontio'r cenedlaethau - gall cyfraddau disgownt isel iawn fod yn briodol.

[1] pri-ld16037-em-w.pdf (senedd.cymru)

Yn ymarferol, mae disgowntio yn golygu bod pwysau sy'n gostwng ar y costau a'r manteision â gwerth ariannol sy'n digwydd ym mhob un o flynyddoedd gwerthusiad yn y dyfodol. Mynegir costau a manteision wedi'u disgowntio yn nhermau 'gwerth presennol'.

Er y gall y gyfradd ddisgownt amrywio rhwng gwledydd, mae'r dechneg o ddisgowntio costau a manteision i adlewyrchu ffafriaeth amser yn arfer safonol, ac mae wedi cael ei defnyddio'n gyson mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Biliau blaenorol.

Datchwyddydd cynnyrch domestig gros

Dull o fesur newidiadau mewn prisiau (h.y. chwyddiant) yn yr economi ddomestig yw'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros. Fe'i cyfrifir gan Drysorlys EF gan ddefnyddio data cynnyrch domestig gros a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn adlewyrchu prisiau'r holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn ddomestig yn yr economi, gan gynnwys gwasanaethau'r Llywodraeth. Mae'r sail eang hon yn golygu ei fod yn fwy addas ar gyfer llifoedd gwariant cyhoeddus sy'n chwyddo/datchwyddo na phrif fesurau chwyddiant eraill megis y Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

Mae'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn cael ei defnyddio'n gyffredin i dynnu effeithiau chwyddiant o ddata cyfres amser (a dyna pam yr enw) ond gellir ei defnyddio yn yr un modd i addasu data i gynnwys chwyddiant.

**Sut mae cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF wedi cael ei defnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ar ôl cynhyrchu amcangyfrif gorau o gostau'r Bil, mae'r costau hynny wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%, i gyfrifo gwerth presennol costau a Gwerth Presennol Net y Bil. Cofnodir y rhain ym mhrif dabl crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar dudalennau 127-130 o'r Memorandwm Esboniadol. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r holl ffigurau eraill a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu disgowntio.

**Sut mae'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros wedi cael ei defnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros wedi cael ei defnyddio i uwchraddio data costau 'hanesyddol' er mwyn sicrhau bod yr holl gostau yn rhannu blwyddyn sail brisiau gyffredin yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er mwyn rhoi enghraifft, mae'r data sydd gennym ar gostau argraffu papurau pleidleisio yn deillio o 2021. Defnyddiwyd y gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros i uwchraddio'r

gost hon o 2021 i brisiau 2022-23 (y flwyddyn sail a ddefnyddir drwy gydol y dadansoddiad).

Er bod costau hanesyddol wedi cael eu huwchraddio i adlewyrchu chwyddiant, nid yw'r amcanestyniadau cost sy'n edrych tua'r dyfodol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu haddasu i gynnwys chwyddiant disgwyliedig yn y dyfodol. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr[2] Gwyrdd Trysorlys EF sy'n nodi y dylid amcangyfrif costau a manteision mewn gwerthusiad o werth cymdeithasol ym mhrisiau blwyddyn sail 'real'. Mae hyn yn golygu y dylid tynnu effeithiau chwyddiant cyffredinol.

**Sut mae'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros wedi cael ei defnyddio yn yr Asesiad Fforddiadwyedd**

Cytunwyd y bydd y Memoranda Esboniadol ar gyfer yr holl Filiau a gyflwynir yn y Senedd o drydedd flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol ymlaen yn cynnwys Asesiad Fforddiadwyedd yn ogystal â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gwnaed y newid hwn mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid.

Un o'r prif wahaniaethau rhwng yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Fforddiadwyedd yw bod yr ail **yn** cynnwys chwyddiant prisiau cyffredinol ar gyfer y dyfodol. Am y rheswm a amlinellir uchod, ystyrir mai'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros yw'r mynegai prisiau mwyaf priodol ar gyfer addasu'r amcangyfrifon cost i ystyried chwyddiant disgwyliedig.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyflwyno rhagolwg ar gyfer y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn y cyhoeddiad Rhagolygon Economaidd a Chyllidol sy'n cyd-fynd â Chyllideb Wanwyn a Datganiad Hydref blynyddol Canghellor y Trysorlys. Defnyddiwyd y rhagolygon yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol[3] Gwanwyn 2023 (y diweddaraf sydd ar gael) i addasu'r amcangyfrifon cost yn yr Asesiad Fforddiadwyedd ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**Nid** yw'r costau yn y dadansoddiad fforddiadwyedd wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF.

Dadansoddiad Economaidd a Chyllidol
Trysorlys Cymru
Medi 2023

[2] Y Llyfr Gwyrdd (publishing.service.gov.uk)
[3] Rhagolwg economaidd a chyllidol - Mawrth 2023 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (obr.uk)

Y Pwyllgor Biliau Diwygio
—
Reform Bill Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

26 Medi 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cyd-ddibyniaeth â'r Bil cwotâu rhywedd a ddisgwylir

Yn ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog, yn ogystal â Bil i ddiwygio maint, system etholiadol a threfniadau ffiniau'r Senedd, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd (y "Bil cwotâu rhywedd"). Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("Bil SC(ME)") yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr i'r Senedd.

Er y bydd y Bil cwotâu rhywedd yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân, a fydd yn amodol ar waith craffu ynddo'i hun maes o law, mae'n anochel y bydd rhywfaint o gyd-ddibyniaeth rhwng unrhyw Fil o'r fath a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae hyn oherwydd y bydd angen i unrhyw gwotâu ar lefel ymgeiswyr a gyflwynir weithredu o fewn cyd-destun y system etholiadol, ffiniau a darpariaethau datgymhwyso y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ceisio eu sefydlu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

1) Gadarnhau a fydd drafft o'r Bil cwotâu rhywedd yn cael ei gyhoeddi cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft, a wnewch chi gadarnhau'r rhesymau dros hyn, a nodwch a fyddai modd rhannu copi ymlaen llaw o'r Bil â ni, yn gyfrinachol, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.
2) Rhoi rhagor o wybodaeth i ni am amcanion y Bil a'r dull deddfwriaethol arfaethedig y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn eu dilyn o ran Bil cwotâu rhywedd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ei hystyried yn berthnasol:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

a. Diben cyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau’r Senedd, gan gynnwys ystyried y nod(au) y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio’i gyflawni drwy eu cyflwyno.

b. Y polisi arfaethedig a gaiff ei roi ar waith yn y Bil cwotâu rhywedd, gan gynnwys dyluniad a’r gweithrediad disgwyliedig o ran cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr, a sut y gorfodir cydymffurfiaeth.

c. Asesiad o’r goblygiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl a fydd i’r polisi arfaethedig o ran gweithredu a rhoi’r system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno rhestrau ymgeiswyr i swyddogion canlyniadau etholaeth (adran 7(1)), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3)), a chymhwysedd ymgeiswyr i lenwi seddi gwag (adran 9)).

d. Gwybodaeth am sut yr ystyriwyd goblygiadau o’r fath wrth asesu’r effeithiau ariannol a’r effeithiau eraill yn y Memorandwm Esboniadol ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa rai o’r asesiadau ariannol neu’r asesiadau effaith eraill a fyddai wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu rhywedd wedi’i chynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac, os felly, sut.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Anfonir copïau o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, ac at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, gan ein bod yn deall mai hi fydd yr Aelod sy’n gyfrifol am y Bil cwotâu rhywedd.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon